

Llywodraeth Cymru

Adroddiad Ymgynghori – Crynodeb o Ymatebion

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Manylion Cysylltu

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Is-adran Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cyfeiriad: Yr Is-adran Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol
Pedwerydd Llawr, Craidd y Gogledd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn:

E-bost: RISCAct2016@gov.wales

ISBN Digidol 978-1-83933-526-6

© Hawlfraint y Goron 2019

WG38390

Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Beth oedd testun yr ymgynghoriad?	5
Manylion yr ymgynghoriad	6
Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	6
Y Camau Nesaf	6
Trosolwg o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad	8
Crynodeb o'r Ymatebion a Dderbyniwyd ac Ymateb Llywodraeth Cymru	9

Cyflwyniad

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Pasiwyd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (“Deddf 2016”) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Tachwedd 2015, a derbyniodd y Cydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016. Mae’n darparu’r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a’r gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru - rheoleiddiwr y gweithlu.

Cafodd Deddf 2016 ei rhoi ar waith mewn tri cham:

- Roedd **Cam 1 (2016/17)** yn cynnwys rheoliadau’n ymwneud â’r system newydd o reoleiddio’r gweithlu, a daeth y rhain i rym ar 3 Ebrill 2017. Yn ogystal â’r rhain, datblygodd Gofal Cymdeithasol Cymru reolau a gweithdrefnau i reoli’r broses o gofrestru a rheoleiddio’r gweithlu, sydd wedi bod ar waith ers 3 Ebrill 2017.
- Roedd **Cam 2 (2017/18)** yn cynnwys rheoliadau a chanllawiau statudol yn ymwneud â’r gofynion a’r safonau disgwylidig ar gyfer darparwyr gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol mewn gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd. Hefyd, roedd yn cynnwys rheoliadau yn ymwneud â’r gweithlu mewn perthynas ag amlinellu amser teithio ac amser gofal, estyn y gofrestr i weithwyr gofal cartref a chyfyngu ar contractau dim oriau. Daeth y rheoliadau hyn i rym ym mis Ebrill 2018.
- Roedd **Cam 3 (2018/19)** yn cynnwys rheoliadau a chanllawiau statudol yn ymwneud â’r gofynion a’r safonau disgwylidig ar gyfer darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol ac asiantaethau cymorth mabwysiadu; gwasanaethau maethu; gwasanaethau lleoli oedolion; a gwasanaethau eirioli. Daeth y rheoliadau hyn i rym ym mis Ebrill 2019.

Cofrestru’r gweithlu gofal cymdeithasol

Ym mis Ebrill 2018, daeth rheoliadau i rym a oedd yn galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i agor cofrestr y gweithlu ar sail wirfoddol i weithwyr gofal cartref. Gwnaed hyn er mwyn darparu cyfnod dwy flynedd i Gofal Cymdeithasol Cymru weithio gyda’r sector i ddeall gofynion cofrestru a pharatoi ar eu cyfer, cyn i gofrestru gorfodol ddod i rym o 2020.

Rydym yn cynnig gwneud yr un fath gyda gweithwyr gofal preswyl oedolion o 2020 cyn i gofrestru gorfodol ddod i rym o 2022. Byddwn yn parhau i adolygu ac ystyried a oes yna grwpiau ychwanegol yn y gweithlu gofal cymdeithasol a ddylai gael eu cofrestru.

Bydd cofrestru'r gweithlu yn helpu i gyflawni'r nod o godi proffil a statws gweithwyr gofal cymdeithasol fel bod gofal cymdeithasol yn dod yn ddewis gyrfa cadarnhaol, lle mae pobl yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n gyfrifol.

Cofrestru darparwyr gofal cymdeithasol gydag Arolygiaeth Gofal Cymru

Mae gan Weinidogion Cymru'r swyddogaeth o reoleiddio gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru. Arolygiaeth Gofal Cymru, y rheoleiddiwr gwasanaethau sy'n ymgymryd â'r swyddogaeth hon ar ran Gweinidogion Cymru. Sefydlodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 set ddiwygiedig o brosesau ar gyfer cofrestru darparwyr gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i gofrestru yng Nghymru pan fydd y gwasanaethau'n cael eu cyflenwi yng Nghymru, a'r prosesau sy'n gysylltiedig â chymhwyso, amrywio a chanslo cofrestriad.

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno darparu gwasanaeth rheoleiddiedig yng Nghymru wneud cais i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru o dan y ddeddfwriaeth newydd. Mae peth o'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y cais i gofrestru wedi'i gosod ar wyneb Deddf 2016, o dan Adran 6. Mae hyn yn cynnwys y gwasanaethau sydd i'w darparu, y manau y mae'r gwasanaethau i'w darparu ynddynt, ohonynt neu mewn perthynas â hwy, dynodi Unigolyn Cyfrifol mewn perthynas â phob lle o'r fath ac enw a chyfeiriad pob unigolyn o'r fath.

Mae *Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017* ("Y Rheoliadau Cofrestru") a gafodd eu gwneud o dan Adrannau 6(1)(d) a 6(2) o Ddeddf 2016, yn nodi'r wybodaeth ychwanegol y mae gofyn ei chynnwys mewn cais, yn ogystal â ffurf y cais. Cafodd ymgynghoriad cyhoeddus llawn ei gynnal ar y Rheoliadau Cofrestru drafft yn 2016. Daeth y Rheoliadau i rym ar 1 Chwefror 2018 pan ddechreuodd y broses o ailgofrestru'r holl wasanaethau cartref gofal, gwasanaethau cymorth cartref, canolfannau teuluol preswyl a gwasanaethau llety diogel yng Nghymru.

Yn ystod y broses o ailgofrestru gwasanaethau o dan Ddeddf 2016, nododd yr arolygiaeth fwllch o ran yr unigolion y gall ofyn am wybodaeth ganddynt er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus ynglŷn ag addasrwydd y rhai sydd am gofrestru i redeg gwasanaeth rheoleiddiedig.

Fel y cyfryw, y bwriad yw diwygio'r Rheoliadau Cofrestru i'w gwneud yn ofynnol i gyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr ac aelodau o fyrddau neu bwyllgorau (ac eithrio Awdurdod Lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol) ddarparu, fel rhan o'r cais i gofrestru, wybodaeth ychwanegol i AGC am unrhyw geisiadau blaenorol i gofrestru o dan Ddeddf 2016, Deddf Safonau Gofal 2000 ac unrhyw geisiadau neu gofrestruadau eraill mewn perthynas â gwasanaeth rheoleiddiedig mewn manau eraill yn y DU.

Mae'r wybodaeth y bydd ei hangen yn gyson â'r hyn sy'n ofynnol gan unigolion a sefydliadau sydd am gofrestru o dan baragraffau 13 i 22 o Atodlen 1 o'r Rheoliadau Cofrestru, ynghyd â'r wybodaeth sy'n ofynnol gan unigolion cyfrifol o dan baragraffau 23 o'r Atodlen honno.

Rydym yn bwriadu defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau o dan Adran 9(9) o Ddeddf 2016 i amrywio'r dystiolaeth y mae'n rhaid i AGC, ar ran Gweinidogion Cymru, dalu sylw iddi wrth benderfynu a yw person yn addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth. Byddai'r dystiolaeth newydd yn cynnwys a yw unrhyw un o gyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr ac aelodau o fyrddau a phwyllgorau'r sefydliad sydd am gofrestru fel darparwr gwasanaeth naill ai wedi cyflawni'r troseddau a amlinellir yn adran 9(4) o Ddeddf 2016 neu wedi bod yn gyfrifol am gamymddwyn neu gamreoli, neu wedi cyfrannu ato neu wedi ei hwyluso, wrth ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig at ddibenion adran 9(6) o'r Ddeddf honno.

Beth oedd testun yr ymgynghoriad?

Fel rhan o roi Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar waith gofynnwyd am safbwyntiau ar y meysydd canlynol:

- i. ei gwneud yn ofynnol i gofrestru pob gweithiwr gofal cartref o fis Ebrill 2020. Mae hyn yn gosod gofyniad ar ddarparwyr gwasanaethau cymorth cartref i gyflogi gweithwyr sydd wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru o 1 Ebrill 2020, neu os ydynt yn weithwyr newydd, sicrhau eu bod wedi cofrestru gyda rheoleiddiwr y gweithlu o fewn chwe mis i gychwyn ar eu cyflogaeth;
- ii. agor cofrestr y gweithlu ar sail wirfoddol i gynnwys gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n cael eu cyflogi neu sydd dan contract ar gyfer gwasanaethau cartref gofal rheoleiddiedig a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i oedolion a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd o 2020 ymlaen cyn y dyddiad cau gofynnol yn 2022. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull o gofrestru gweithwyr gofal cartref er mwyn helpu i reoli'r broses gofrestru a sicrhau bod rheoleiddiwr y gweithlu yn gallu ymgysylltu â'r sector. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i sicrhau ein bod yn dysgu o'r profiad o estyn y gofyniad i gofrestru i gynnwys gweithwyr gofal cartref;
- iii. diwygio'r Rheoliadau Cofrestru i'w gwneud yn ofynnol i lunwyr penderfyniadau allweddol unrhyw sefydliad cymwys (fel cyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr ac aelodau o fyrddau neu bwyllgorau) (ac eithrio Awdurdod Lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol) i ddarparu gwybodaeth i AGC am unrhyw geisiadau cofrestru blaenorol a chofrestriadau gwasanaeth rheoleiddiedig yn y DU, yn ogystal â gwybodaeth adnabod berthnasol. Dyma'r wybodaeth sy'n ofynnol ar hyn o bryd ym mharagraffau 13 i 23 o Atodlen 1 o'r Rheoliadau Cofrestru;
- iv. defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 9(9) o Ddeddf 2016 i amrywio'r dystiolaeth y mae'n rhaid i AGC, ar ran Gweinidogion Cymru, roi sylw iddi wrth benderfynu a yw person yn addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth. Byddai'r dystiolaeth newydd yn cynnwys a yw unrhyw un o'r cyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr ac aelodau o fyrddau neu bwyllgorau'r sefydliad sy'n ceisio cofrestru fel darparwr gwasanaeth naill ai wedi cyflawni'r troseddau a amlinellir yn adran 9(4) neu wedi bod yn gyfrifol am

gamymddwyn neu gamreoli, neu wedi cyfrannu ato neu wedi ei hwyluso, wrth ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig at ddibenion adran 9(6).

Manylion yr ymgynghoriad

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros ddeuddeg wythnos o 26 Gorffennaf i 16 Hydref 2019 ac yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, cyhoeddwyd y dogfennau ymgynghori'n ddwyieithog ar wefan Llywodraeth Cymru.

Roedd y ddogfen ymgynghori ar gael mewn fformat dwyieithog safonol ac yn cynnwys ffurflen ymateb y gellid ei chyflwyno drwy e-bost neu mewn copi caled. Darparwyd pob fersiwn o'r ymgynghoriad ar y dudalen we ganlynol -

<https://llyw.cymru/rhoi-deddf-rheoleiddio-ac-arolygu-gofal-cymdeithasol-cymru-2016-ar-waith>

<https://gov.wales/implementation-regulation-and-inspection-social-care-wales-act-2016>

Rydym yn ddiolchgar i'r holl randdeiliaid a dreuliodd amser yn ymateb i'n hymgynghoriad ac rydym wedi ystyried pob ymateb a dderbyniwyd.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori i gyflwyno cynigion drafft yr ymgynghoriad i randdeiliaid. Cynhaliwyd y cyntaf yn Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd a'r ail yng Nghanolfan Catrin Finch Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam. Daeth 20 o bartion â buddiant o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i'r digwyddiadau hyn, a oedd â'r nod o annog rhanddeiliaid i ymateb ac i alluogi'r rhai sy'n mynychu i:

- gael trosolwg o'r fframwaith deddfwriaethol drafft a newidiadau allweddol a ddaw i rym yn ei sgil;
- gwirio eu dealltwriaeth o'r cynigion a gofyn am eglurder, os oes angen;
- ystyried y goblygiadau posibl ar gyfer eu swydd a'u sefydliad.

Defnyddiodd Llywodraeth Cymru nifer o fforymau eraill hefyd fel Grŵp Llywio Gofal Cartref a'r Fforwm Darparwyr Cenedlaethol ar gyfer gofyn cwestiynau i randdeiliaid y sector allweddol ac ateb unrhyw gwestiynau cychwynnol ar y rheoliadau draft neu gyfeiriad y polisi.

Y Camau Nesaf

Ar ôl dadansoddi ac ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gyflwyno'r rheoliadau drafft a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w hystyried a'u trafod ddiwedd Ionawr 2020.

Fodd bynnag, byddwn yn diwygio dwy set o'r rheoliadau drafft a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori i adlewyrchu'r sylwadau am sicrhau cysondeb yn y gofynion i'r holl staff asiantaeth gofrestru gyda rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru. Byddwn felly'n cynnwys diwygiad i osod y geiriau "neu a gyflogir o dan gontract ar gyfer gwasanaethau", yn Adran 35(2)(f) o *Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2020* ar ôl y geiriau "pan gyflogir unigolyn, mewn capasiti ac eithrio rheolwr ac yn ystod ei gyflogaeth mae'r person yn darparu gofal mewn cysylltiad â—"ac yn Adran 3(2)(b) o *Reoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2020* ar ôl y geiriau "sydd yn ystod ei gyflogaeth â darparwr gwasanaethau, i ddarparu gofal a chymorth i unrhyw unigolyn yng Nghymru mewn cysylltiad â – Daw'r rheoliadau hyn i rym ym mis Ebrill 2020.

O ran cofrestru darparwyr gwasanaethau, bydd y Rheoliadau Cofrestru'n cael eu diwygio a rheoliadau'n cael eu creu o dan adran 9(9) o Ddeddf 2016 i weithredu'r newidiadau a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn. Daw'r newidiadau hyn i rym ym mis Ebrill 2020.

Wrth ymgynghori ar y cynigion hyn rydym wedi nodi'r angen i wneud newid cysylltiedig i'r rhestr o hysbysiadau yn atodlen 3 i'r gyfres o reoliadau sy'n pennu gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol yr holl wasanaethau rheoleiddiedig¹, i sicrhau bod y gofynion rheoleiddio'n gweithio'n effeithiol yn gyffredinol ac fel y bwriadwyd. Dim ond i gwmnïau a phartneriaethau sy'n ddarparwyr y mae'r gofyniad i hysbysu AGC am unrhyw newid ar ôl i wasanaeth gael ei gofrestru yn berthnasol i ar hyn o bryd.

Rydym yn bwriadu unioni'r hepgoriad anfwriadol hwn drwy ymestyn y gofyniad hwn i gynnwys unigolion sy'n ffurfio'r prif gorff sy'n gwneud penderfyniadau mewn cyrff anghorfforedig (fel ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgorau). Wrth lunio'r hysbysiad hwn, mae AGC yn bwriadu gofyn am wybodaeth am hanes yr unigolyn o redeg gwasanaethau rheoleiddiedig, fel y nodir ym mharagraffau 13 i 23 o'r rheoliadau cofrestru. Bydd y newid arfaethedig hwn yn galluogi AGC i gynnal trosolwg effeithiol o'r rhai sy'n rhedeg gwasanaethau rheoleiddiedig ac yn sicrhau cysondeb y gofynion a roddir ar yr amrywiaeth o sefydliadau sydd wedi'u cofrestru fel darparwyr gwasanaethau yng Nghymru.

¹ Y rhain yw:

- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2017;
- Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2019;
- Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2019;
- Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019;
- Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2019.

Byddwn yn ysgrifennu at y partion â buddiant i ymgynghori â nhw ar y cynnig hwn i ddiwygio atodlen 3 o fewn y gyfres o reoliadau. Bydd y newid arfaethedig hwn yn sicrhau bod gofynion a bennir ar wahanol fathau o ddarparwyr yn gyson a bod AGC yn gallu cynnal trosolwg digonol o'r holl ddarparwyr gwasanaethau. Bydd canlyniad yr ymgysylltu hwn yn cael ei gyhoeddi yn y Memorandwm Esboniadol i'r rheoliadau diwygio.

Trosolwg o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Derbyniwyd 58 ymateb ar-lein, gyda 9 ohonynt yn wag. O'r 49 a ymatebodd, cwblhaodd 42 y templed safonol ac roedd 7 wedi cyflwyno sylwadau annibynnol. Derbyniwyd sawl ymateb yn ystod y digwyddiadau ymgynghori a fforymau eraill (e.e. Fforwm Gofal Cymru, Fforwm Darparwyr Cenedlaethol, Grŵp Llywio Gofal Cartref ac ati) gan aelodau grwpiau a ddarparodd sylwadau ysgrifenedig ffurfiol hefyd. Rydym wedi ystyried yr holl ymatebion hyn yn ein dadansoddiad cyffredinol, er dim ond sylwadau ysgrifenedig ffurfiol sydd wedi'u cynnwys yn y tablau rhifyddol isod.

Pan roedd ymatebwyr wedi darparu ymateb cyfunol ar ran nifer o randdeiliaid eraill (er enghraifft, sefydliad ar ran ei aelodau), ystyriwyd hyn fel rhan o'n dadansoddiad ansoddol. Fodd bynnag, byddai hyn yn cael ei gyfrif fel un cyflwyniad at ddibenion cyfrif.

Mae manylion yr ymatebion, fesul sector, fel a ganlyn:

Sector	Nifer yr Ymatebion
Preifat	8
Cyhoeddus	15
Trydydd Sector	4
Cyfuniad o'r tri uchod	3
Dinesydd Unigol	19
Anhysbys	9
Cyfanswm	58

Mae manylion yr ymatebion, fesul math o sefydliad, fel a ganlyn:

Math o Sefydliad	Nifer yr Ymatebion
Cartref Nyrsio i Oedolion	1
Adran Gwasanaethau Cymdeithasol	8
Cartref Gofal Preswyl i Oedolion	5
Asiantaeth Gofal Cartref	2
Corff Proffesiynol	2
Gwasanaeth Iechyd Gwladol	2

Sefydliad Academaidd	0
Corff Arolygu	1
Corff Cynrychioliadol â Buddiant	4
Gofal Cartref a Gofal Preswyl	4
Cyflenwr Cyfarpar	0
Fforwm Partneriaeth	2
Unigolyn neu Anhysbys	27
Cyfanswm	58

Crynodeb o'r Ymatebion a Dderbyniwyd ac Ymateb Llywodraeth Cymru

Cwestiwn 1: A ddylai gweithwyr asiantaeth gael eu heithrio rhag gorfod cofrestru fel gweithwyr gofal cartref?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim Ymateb	Cyfanswm
6	1	6	23	9	45

Crynodeb o'r ymatebion:

Roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd naill ai'n anghytuno, neu'n tueddu i anghytuno gyda'r awgrym y dylai gweithwyr asiantaeth gael eu heithrio rhag gorfod cofrestru fel gweithwyr gofal cartref. Y rhesymau a roddwyd oedd y dylai'r holl weithwyr fodloni'r un gofynion a bod yn addas a galluog i ddarparu gofal i safon benodol.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn dadlau y dylai'r un disgwyliadau a lefelau cymwysterau a safonau fod yn berthnasol i staff asiantaeth hefyd. Dywedodd un ymatebydd y "*...dylent ddisgwyl gael eu trin fel gweithiwr gofal cartref ym mhob ffordd – cymwysterau a chofrestru...*", tra bod nifer o'r ymatebwyr yn dadlau y byddai'n "*rhoi sicrwydd bod holl weithwyr gofal cymdeithasol yn bodloni'r un safonau a gofynion rheoliadol â'r rhai mewn lleoliadau eraill...*" ac y byddai cyflogwyr "*...wrth ystyried defnyddio staff asiantaeth angen y sicrwydd bod ganddynt staff sy'n addas i weithio; mae'r fframwaith cofrestru'n cadarnhau hyn...*".

Dywedodd tri ymatebydd y dylai dinasyddion sy'n derbyn gofal allu disgwyl yr un lefel o broffesiynoldeb gydnabyddedig waeth pwy sy'n darparu'r gofal a'r cymorth.

Er bod un ymatebydd yn cytuno â'n cynigion ar gyfer proffesiynoli'r gweithlu ac yn derbyn y cyfraniad mae cofrestru'n ei wneud at ddiogelu ac atebolrwydd, roedd yn teimlo "*...y byddai'n well llacio'r cofrestru gorfodol ar gyfer gweithwyr gofal cartref yn*

hytrach nag eithrio gweithwyr asiantaeth...” Dadleuodd ymatebydd arall yn groes i hyn gan ddweud yr hoffai weld agweddau eraill ar y gweithlu – cynorthwywyr gofal iechyd mewn lleoliadau gofal cymdeithasol – yn cael eu cofrestru i helpu i sicrhau cydraddoldeb rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.

Fodd bynnag, roedd rhai'n teimlo bod cofrestru'n syniad da ond y dylid mynd i'r afael â materion eraill ochr yn ochr ag ef er mwyn y gwaith yn fwy apelgar i fwy o bobl. Er enghraifft, amodau a thelerau gwell neu lai o ofynion cymwysterau.

Er bod saith ymatebydd yn cytuno y dylai staff asiantaeth gael eu heithrio o gofrestru, ni roddodd pump ohonynt reswm pam. Pan roddwyd rheswm, roedd yn dueddol o adlewyrchu barn ehangach na ddylai'r gweithlu gofal cartref orfod cael ei gofrestru.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Ar ôl ystyried yr ymatebion rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â chynnwys gweithwyr asiantaeth fel rhan o'r gofyniad i gofrestru gyda rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru.

O ran awgrymiadau rydym wedi'u derbyn ynghylch cofrestru grwpiau gweithlu eraill, mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (“Deddf 2016”) yn rhoi hyblygrwydd ar gyfer cynnwys mwy o'r gweithlu ar y gofrestr gweithlu yn y dyfodol a bydd yn parhau i fonitro a ddylai rhannau eraill o'r gweithlu gofal gael eu cofrestru.

Yn fwy eang, byddwn yn parhau i weithio gyda'r sector i weld pa gamau pellach y gellid eu cymryd i wella amodau a thelerau'r gweithlu.

Cwestiwn 2: A ddylai gwirfoddolwyr gael eu heithrio rhag gorfod cofrestru fel gweithwyr gofal cartref?					
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim Ymateb	Cyfanswm
17	10	13	6	12	58

Crynodeb o'r ymatebion:

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n tueddu i gytuno y dylai gwirfoddolwyr gael eu heithrio rhag gorfod cofrestru fel gweithwyr gofal cartref.

Un ddadl a gyflwynwyd gan nifer o'r ymatebwyr oedd bod yna ddigon o ddiogelwch yn cael ei sicrhau gan fod rolau gwirfoddolwyr yn aml yn cael eu goruchwyllo, a bod gofyn iddynt gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn gallu ymuno â'r sefydliad fel gwirfoddolwr. Roedd y sylwadau'n cynnwys, “...*cyn belled bod gwirfoddolwyr wedi'u gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, dim ond os ydynt yn mynd ymlaen i unrhyw gyflogaeth y dylent orfod cofrestru fel sy'n ofynnol o bob gweithiwr arall...*” ac “...*mae cynnal gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a*

Gwahardd ar wirfoddolwyr yn ddigonol...” a “...byddai hyn yn dibynnu ar lefel y gofal a ddarperir; byddai'n dibynnu ar lefel y gwiriad a wnaed gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd...”

Teimlwyd y dylid cael ffordd o gefnogi gwirfoddolwyr i gofrestru os ydynt yn dymuno gwneud gan y byddai hyn yn cefnogi mwy o unigolion i gael eu cyflogi yn y sector gofal cymdeithasol.

Dywedodd rhai ymatebwyr fod disgwyl i wirfoddolwyr gwblhau Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan yn aml. Os oedd gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i'r un safon â'u cydweithwyr roeddynt yn teimlo y dylent gael eu trin yn yr un ffordd o ran cofrestru.

Roedd dau o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai gwirfoddolwyr, nad ydynt yn cael eu talu ac sy'n cael eu hysgogi gan awydd i helpu eraill yn unig, yn annhebygol o fod eisiau talu ffi cofrestru. Roedd yr ymatebwyr hyn yn teimlo na ddylai gwirfoddolwyr deimlo nad oeddynt am gynnig eu hamser oherwydd yr orfodaeth i dalu ffi cofrestru.

Dadleuodd rhai o'r ymatebwyr fod gwirfoddolwyr yn cyflawni rolau nad ydynt yn rhai gofalu yn gyffredinol (h.y. cadw cwmni, darllen, siopa, golchi ac ati) ac na ddylent orfod cofrestru o ganlyniad. Er enghraifft, “...ni fyddem yn disgwyl i wirfoddolwyr wneud rhai tasgau cofrestradwy e.e. gofal personol...” ac “...[mae gwirfoddolwyr] yn cyfrannu drwy weithio ar dasgau mwy cyffredinol, tasgau amhenodol, ac ni ddylent orfod cofrestru yn yr un ffordd...”

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai'n “...afrealistig disgwyl i wirfoddolwyr di-dâl astudio i ennill cymwysterau a chofrestru...” gan eu bod yn gwneud hynny i helpu eraill heb dâl am eu hamser a'u gofal. Dywedodd un ymatebydd fod “...angen i reoleiddwyr fod yn ofalus am osod rhwystrau cynyddol i alluogi cymunedau i gefnogi ei gilydd...” tra bod un arall yn teimlo “...natur gwirfoddoli yw mai dewis ydyw nid contract...” na ddylid ei atal drwy reoleiddio.

Roedd rhai o'r rhai a deimlai y dylai gwirfoddolwyr gael eu cynnwys yn y gofrestr yn credu y gallai achosi risg diogelu i'r unigolyn sydd angen gofal a chymorth. Er enghraifft, dywedodd un ymatebydd “...os ydynt yn mynd i wneud gwaith ymarferol, mae'n rhaid iddynt fod wedi'u cofrestru, yn brofiadol ac wedi cymhwyso...” neu “...dylid cael cofrestri i ddiogelu pobl agored i niwed...” ac “...os yw gwirfoddolwyr yn cyflawni tasgau gofal personol neu ofal cartref dylent orfod cofrestru gyda rheoleiddiwr hefyd...”. Mae hyn yn awgrymu er bod pobl yn derbyn y gall gwirfoddolwyr gyflawni rôl ddefnyddiol yn darparu gofal a chymorth, eu bod yn teimlo'n gryf na ddylai hyn fod ar draul sicrhau nad yw'r rhai sy'n derbyn y gofal yn agored i niwed posibl.

Gofynnodd dau ymatebydd a oedd y cwestiwn yn cyfeirio at “wirfoddolwyr” neu'r rhai sy'n cael eu cyflogi fel cyn-orthwyr personol drwy'r llwybr taliadau uniongyrchol. Yn yr achos hwn, roedd y ddau yn teimlo y dylai cynorthwyyr personol sy'n darparu gofal a chymorth yn yr un ffordd â gweithwyr gofal cartref gael eu cofrestru.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Roedd yna farn gymysg ar a ddylai gwirfoddolwyr barhau i gael eu heithrio rhag cofrestru. Rydym yn bwriadu dilyn barn y mwyafrif ac nid ydym yn bwriadu dod â gwirfoddolwyr o dan gwmpas cofrestru'r gweithlu ac ni fyddem am osod rhwystrau diangen yn ffordd pobl sy'n dymuno gwirfoddoli eu hamser. Hefyd, mae llawer o wirfoddolwyr yn darparu math o gymorth sy'n perthyn i du allan y diffiniad o ofal a chymorth a amlinellir yn Neddf 2016. Rydym yn cydnabod y gallai gwirfoddoli fod yn gam cyntaf i yrfa ym maes gofal cartref ond yn teimlo y gallai'r gofyniad i gofrestru a gweithio tuag at gymhwyster er mwyn gwirfoddoli ac ennill profiad fod yn rhwystr diangen i'r llwybr gyrfa hwn hefyd.

Yn bwysig, mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Cofrestredig ac Unigolion Cyfrifol) 2017 hefyd yn gosod gofynion clir ar ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig mewn perthynas â gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn eu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau eu bod yn addas i weithio yn y gwasanaeth, eu bod yn onest ac o gymeriad da, a bod ganddynt y cymwysterau, y sgiliau, y cymhwysedd a'r profiad angenrheidiol ar gyfer eu gwaith.

Byddwn yn parhau i ystyried gweithgareddau ychwanegol i ddatblygu a chefnogi gweithlu gofal cymdeithasol cydlynol.

Cwestiwn 3: A ddylem wneud cofrestru deul yn ofynnol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n cael eu cyflogi gan wasanaeth cymorth cartref wrth ymgymryd â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'u cofrestru proffesiynol, os ydynt eisoes wedi'u cofrestru gyda rheoleiddiwr arall y gweithlu?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb	Cyfanswm
11	9	12	14	12	58

Crynodeb o'r ymatebion:

Cafwyd ymatebion cymysg i'r cwestiwn hwn. Fodd bynnag, roedd mwyafrif bychan naill ai'n anghytuno, neu'n tueddu i anghytuno, gyda'r awgrym y dylai cofrestru deul fod yn ofynnol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n cael eu cyflogi gan wasanaethau cymorth cartref wrth ymgymryd â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'u cofrestru proffesiynol, os ydynt eisoes wedi'u cofrestru gyda rheoleiddiwr arall y gweithlu.

Dadleuodd sawl ymatebydd y byddai gofyn am gofrestru deul ym mhob achos yn cynyddu'r baich ar staff o ran yr amser y byddai'n ei gymryd i gychwyn a chynnal cofrestru, yn ogystal â'r cynnydd mewn costau cysylltiedig, "...*Mae cofrestru deul ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn ddiangen, yn llyncu amser ac yn gostus...*" Mynegwyd pryderon y byddai gwneud cofrestru deul yn ofynnol yn atal pobl rhag ymuno â'r sector gofal cymdeithasol a byddai hynny'n gwaethygu'r heriau recriwtio cyfredol a wynebwr, "...*dylai un cofrestriad proffesiynol fod yn ddigon, byddai cost a gofynion gorfod cael nifer o gofrestriadau yn atal pobl rhag gweithio yn y sector...*"

Soniodd rhai ymatebwyr yn benodol am nyrsys oedd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. O dan y cynigion cyfredol a amlinellir yn yr ymgynghoriad, byddai'r grŵp proffesiynol hwn wedi'u heithrio rhag cofrestru deul. Roedd sawl ymatebydd yn cytuno â'r eithriad arfaethedig, gan ddatgan, "...ni fyddem am i nyrsys cymwysedig orfod cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru o ystyried eu bod eisoes wedi cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac wedi cymhwyso i lefel llawer uwch na chymhwyster gofal cymdeithasol lefel 2..." Pryderon am recriwtio a chadw nyrsys cofrestredig ym maes gofal cymdeithasol oedd un rheswm, "...gallai hyn fod yn rhwystr i nyrsys ymuno neu barhau i weithio mewn lleoliadau gofal cymdeithasol..."

Roedd un ymatebydd yn teimlo y gallai dyblygu gwaith yn sgil cofrestru deul achosi problemau mewn sefyllfaoedd fel ymchwilio i bryderon am addasrwydd i ymarfer. Os yw dau reoleiddiwr yn rhannu safonau a phrosesau penodol gallai hyn arwain at "...sefyllfaoedd lle mae'r swyddogaethau a rennir yn anghyson neu'n gwrthddech ei gilydd, a allai olygu oedi hir mewn ymchwiliadau a safonau a gofynion anghydnaws". Roedd eraill yn teimlo y byddai cydweithio'n agosach rhwng rheoleiddwyr, a chysoni safonau a chymwysterau'n gwella'r broses i gyflogwyr a gweithwyr, gan osgoi'r angen am gofrestru deul, "...dylai cyflogwyr allu cael mynediad i bob rheoleiddiwr i wirio eu dilysrwydd..."", gydag un ymatebydd yn mynd mor bell â datgan "Dylai rhai cofrestriadau proffesiynol roi hawl i'r cofrestrydd gael ei gynnwys yn awtomatig ar y gofrestr gofal cymdeithasol."

Ymhlith y rhai oedd yn anghytuno neu'n tueddu i anghytuno â chofrestru deul roedd cydnabyddiaeth o hyd o'r cyfraniad hanfodol y mae cofrestru'n ei wneud i ddiogelu'r cyhoedd, "...dylai dinasyddion gael y gofal a'r cymorth proffesiynol maent eu hangen, ac mae cofrestru'n helpu i ffurfioli'r cymorth proffesiynol hwnnw..." a chydabyddiaeth ei fod yn "...dibynnu ar natur a pherthnasedd y cymwysterau proffesiynol [sydd gan unigolyn]..." yn ogystal â'r profiad a enillwyd yn ystod gyrfa wrth benderfynu pa ddysgu a datblygu ychwanegol y mae'n rhaid i weithiwr ei wneud i gwblhau gweithgareddau penodol.

Ymhlith y rhai oedd yn cytuno neu'n tueddu i gytuno gyda'r egwyddor o gofrestru deul, rhoddodd un ymatebydd ddwy enghraifft ymarferol benodol o pryd y byddai hyn yn fuddiol; pan fo unigolion yn gweithio mewn mwy nag un wlad (e.e. Cymru a Lloegr) gan ddadlau y dylent orfod cofrestru gyda rheoleiddwyr gweithlu y gwledydd hynny; a phan fo unigolion yn gweithio mewn lleoliadau gwahanol (e.e. addysg a gofal cymdeithasol). Tynnodd ymatebydd arall sylw at bwysigrwydd ystyried y rôl y mae'r unigolyn yn bwriadu ei chyflawni ym maes gofal cartref a'i chyfwerthedd â'r rôl y cofrestrwyd nhw ar ei chyfer, "...gan dybio nad yw'r ffaith bod rhywun yn bodloni ei safon cofrestru proffesiynol yn golygu ei fod yn addas i weithio mewn lleoliad gofal cartref o reidrwydd."

Roedd ymatebwyr yn teimlo bod "gwiriadau" yn bwysig am sawl rheswm; i ddiogelu defnyddwyr gwasanaethau drwy orfodi atebolrwydd a sicrhau bod protocolau ar waith ar gyfer mynegi pryderon, i "gynnal proffesiynoldeb y gweithlu...", ac i ddarparu eglurder i bawb dan sylw. Er eu bod yn cytuno â chofrestru deul, cydnabuwyd y rhwystrau mae'n eu hachosi fel dyblygu ffioedd, gydag un ymatebydd yn datgan "...mae'n rhaid i ni weithio i oresgyn hyn..."

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Ar ôl ystyried yn ofalus, nid ydym yn bwriadu gwneud cofrestru deul yn ofynnol i weithwyr proffesiynol *oni bai bod* eu rôl yn wahanol iawn i'w proffesiwn cofrestredig. Er enghraifft, os yw nyrs yn gweithredu mewn swydd reoli neu swydd gofal cartref cyffredinol yn bennaf ac nid mewn swydd nyrsio, *byddwn* yn disgwyl i'r nyrs gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Credwn ei bod hi'n bwysig gwneud cofrestru deul yn ofynnol pan gyflogir gweithwyr proffesiynol i gyflawni gweithgareddau *nad ydynt* yn gysylltiedig â'u cofrestrriad proffesiynol, ac y bydd hyn yn darparu mesurau diogelwch digonol a fydd yn sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn bodloni'r Cod Ymarfer gofynnol ar gyfer eu swydd.

Cwestiwn 4: A oes angen darparu unrhyw ganllawiau i helpu gwasanaethau cymorth cartref i gydymffurfio â'r gofynion cofrestru? Os felly, pa fath o ganllawiau sydd eu hangen yn eich barn chi?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb	Cyfanswm
38	4	1	4	11	58

Crynodeb o'r ymatebion:

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno y dylid darparu canllawiau i helpu gwasanaethau cymorth cartref i gydymffurfio â'r rheoliadau. Dywedodd yr ymatebwyr y dylai unrhyw ganllawiau fod yn syml, cryno a hawdd i'w canfod, y dylid cael "*canllawiau syml i wneud y broses yn haws*" ac y dylid defnyddio "*... iaith gefnogol, glir ac anogol...*"

Teimlwyd y byddai canllawiau'n ddefnyddiol ar gyfer nifer o gynulleidfaoedd yn cynnwys y rhai sy'n newydd i'r sector, gweithwyr cyfredol, cyflogwyr/darparwyr ac asiantaethau. Awgrymwyd cymysgedd o fformatau gwahanol i gyfathrebu'r wybodaeth fel llawlyfr gweledol, hawdd i'w ddarllen, tudalen we, canllawiau a llinell gymorth. Fodd bynnag, roedd un ymatebydd yn teimlo "*...nid canllawiau'n unig sydd eu hangen, ond cyfres o gynigion o gymorth ymarferol gan gyrrff ac asiantaethau perthnasol yng Nghymru*". Cyflwynodd yr ymatebydd hwn nifer o argymhellion yn cynnwys "*arolwg gweithlu sector cyfan*" i gasglu ffigurau gweithlu sylfaenol cyn i

gofrestru gweithwyr gofal cartref fod yn orfodol, a “sesiynau gwybodaeth pwrpasol wedi’u darparu gan gyrff masnach a chyrrff cynrychioliadol...”

Roedd ymgysylltu â darparwyr yn thema a ailadroddwyd gan sawl ymatebydd, gyda rhai’n mynegi’r farn nad oedd digon wedi’i wneud i godi ymwybyddiaeth o’r rheoliadau ledled y sector, “rydym yn bryderus na fydd llawer o ddarparwyr yn llwyr ymwybodol o’u cyfrifoldebau o dan y rheoliadau a byddem yn annog mwy o ymgysylltu rhwng Gofal Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru”.

Roedd awgrymiadau i oresgyn y rhwystr posibl hwn yn cynnwys digwyddiadau parhaus rheolaidd â chyflogwyr a datblygu ‘cynllun anodd i gyrraedd’ i godi ymwybyddiaeth ymysg yr holl ddarparwyr.

Ymhellach, gofynnodd ymatebwyr am ganllawiau penodol ar ystod eang o bynciau fel hyfforddiant, addysg a datblygiad proffesiynol parhaus, y cymwysterau sydd eu hangen i gofrestru a sut i symud ymlaen os nad oes gan weithiwr y cymwysterau gofynnol wrth ddechrau gweithio. Roedd pynciau eraill o ddiddordeb yn cynnwys canllawiau ar pryd fyddai cofrestru deul yn ofynnol, sut i oruchwylio a rheoli gwirfoddolwyr, a sut i ymdrin ag anghysonderau rhwng y rheoliadau a chyfraith cyflogaeth. Roedd gan rai ymatebwyr ddiddordeb mewn derbyn cyngor ar y goblygiadau i’r unigolyn os nad yw’n cofrestru erbyn y dyddiad cau ac i’r cyflogwr os yw’n cyflogi aelod o staff nad yw wedi cofrestru.

Roedd lleiafrif bychan o ymatebwyr yn anghytuno neu’n tueddu i anghytuno y byddai canllawiau ar gofrestru’n ddefnyddiol, gydag un ymatebydd yn datgan bod “*digon o ganllawiau wedi’u rhoi ac mai dim ond gweithredu ynghylch y cymwysterau gofynnol oedd yn broblem.*”

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Byddwn yn ystyried yn ofalus pa fath o ganllawiau a allai fod yn ddefnyddiol ac yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru i ystyried sut y gallwn fwrw ymlaen â’r awgrym hwn. Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut y byddai unrhyw ganllawiau o’r fath yn cyd-fynd â’r wybodaeth sydd eisoes ar gael ar wefannau Gofal Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Cwestiwn 5: A yw’r rheoliadau a’r diffiniadau drafft amgaeedig yn ddigon clir a chynhwysfawr i gyflwyno’n effeithiol y broses o gofrestru gwirfoddol ar gyfer gweithwyr gofal preswyl i oedolion a gweithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb	Cyfanswm
21	12	3	2	20	58

Crynodeb o’r ymatebion:

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno bod y rheoliadau a'r diffiniadau drafft yn ddigon clir a chynhwysfawr i gyflwyno'n effeithiol y broses o gofrestru gwirfoddol ar gyfer gweithwyr gofal preswyl i oedolion a gweithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd, er enghraifft gan ddatgan bod "...yr iaith yn ceisio osgoi jargon, a nodi bwriad a rhesymau yn eithaf clir". Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r ymatebwyr fod angen gwneud y negeseuon am ffioedd cofrestru blynyddol ac annog gweithwyr i gofrestru'n wirfoddol yn fwy amlwg drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Un o'r rhesymau mwyaf cyffredin ymysg y rhai oedd yn anghytuno neu'n tueddu i anghytuno oedd nad oedd yr iaith a ddefnyddiwyd yn y rheoliadau drafft yn "*hawdd i'r darlennydd ei deall nac wedi'i sgwennu mewn Saesneg clir*". Roedd eraill yn teimlo y gallai diffyg eglurder arwain at ddiffyg atebolrwydd.

Hefyd, er bod un ymatebydd yn cytuno bod y rheoliadau a'r diffiniadau drafft yn gymharol glir, gofynnwyd cwestiwn a fyddai unigolion a gyflogir mewn swyddi sy'n cynnwys rhyngweithio â phreswylwyr (e.e. gweini lluniaeth) ond nad ydynt yn darparu gofal a chymorth uniongyrchol, yn dod o dan y diffiniad o weithiwr gofal preswyl i oedolion neu weithiwr canolfannau preswyl i deuluoedd.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Ar ôl ystyried yr ymatebion a'r rheoliadau'n ofalus rydym wedi dod i'r casgliad na fydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i'r rheoliadau drafft at ddiben eglurder. Byddwn yn trafod y negeseuon a dderbyniwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn gyda Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn iddynt gael eu hystyried mewn gohebiaeth am weithredu'r gofynion cofrestru.

Ni fydd y rheoliadau yn ei gwneud hi'n ofynnol i gofrestru staff nad ydynt yn darparu gofal a chymorth uniongyrchol, fel y diffinnir yn Adrannau 3(1)(a) a (d) o Ddeddf 2016, i breswylwyr cartrefi gofal i oedolion.

Cwestiwn 6: Ydych chi'n credu bod cyfnod dwy flynedd o 2020 ymlaen ar gyfer cofrestru'n wirfoddol yn ddigon i hwyluso'r broses orfodol o gofrestru gweithwyr gofal preswyl i oedolion a gweithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd erbyn 2022?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb	Cyfanswm
20	10	6	3	19	58

Crynodeb o'r ymatebion:

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno y byddai cyfnod dwy flynedd o 2020 ymlaen i alluogi pobl i gofrestru'n wirfoddol yn ddigon i hwyluso'r

broses orfodol o gofrestru gweithwyr gofal preswyl i oedolion a gweithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd erbyn 2022. Ymhlith y grŵp hwn o ymatebwyr, teimlwyd y byddai dwy flynedd yn rhoi cysondeb gyda'r amser cyflwyno a fabwysiadwyd ar gyfer cofrestru gweithwyr gofal cartref.

Er bod rhai o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn teimlo bod dwy flynedd yn ddigon i hwyluso'r broses orfodol o gofrestru, mynegwyd barn hefyd y gellid oedi dyddiad dechrau'r cyfnod dwy flynedd. Teimlwyd y byddai hyn yn rhoi amser i ddysgu unrhyw wersi o'r broses wirfoddol o gofrestru staff gofal cartref

"...dylid dysgu gwersi o brofiad cartrefi gofal lle cafodd cofrestru ei oedi yn sgil cyfradd drosiant staff gofal."

Roedd hyn hefyd yn adlewyrchu pryder bod cofrestru wedi cael effaith negyddol ar drosiant staff yn y sector hwn, *"...nid ydym yn gwybod eto sut mae'r broses gofrestru'n mynd i effeithio ar drosiant staff..."* Tynnodd dau ymatebydd sylw at y gorbryder, y straen a'r ansicrwydd y mae rhai gweithwyr a chyflogwyr yn eu profi yn sgil y broses gofrestru, sef y priif ffactorau a oedd yn cyfrannu at y cyfraddau gadael diweddar ym maes gofal cartref. Galwodd rhai ymatebwyr felly am oedi'r broses o agor y gofrestr neu ei gwneud yn fwy hyblyg *"...fel y gellir y gellir dysgu'n ddigonol a chynnal dadansoddiad effaith cyn ymestyn y cynllun gorfodol i weithwyr preswyl"*.

Dywedodd ymatebwyr eraill y byddai dwy flynedd yn ddigon cyn belled bod adnoddau a seilwaith digonol ar waith i reoli'r ceisiadau, a phan fo *"...cyfathrebu, cymorth a chanllawiau priodol yn digwydd a chael eu darparu..."*

Dywedodd rhai ymatebwyr fod angen sicrhau cydbwysedd rhwng cyfnod cyflwyno hir a allai *"...arwain at hunanfodlonrwydd, ac yna'r system yn blocio wrth i'r dyddiad cau nesáu"*, a chyfnod cyflwyno byr na fyddai'n rhoi digon o amser i unigolion a darparwyr baratoi o bosibl. Dywedodd un ymatebydd y gallai cyfnod cyflwyno o ddwy flynedd olygu y byddai unigolion yn gadael y broses gofrestru tan y *"...funud olaf"* wrth i'r dyddiad cau nesáu. Roedd un ymatebydd yn teimlo y gallai hyn rhoi diogelwch cleifion mewn perygl hyd yn oed.

Roedd rhai o'r rhai a oedd yn anghytuno gyda'r cyfnod cyflwyno dwy flynedd yn teimlo ei fod yn rhy fyr i gofrestru nifer yr unigolion cysylltiedig ac, *"...yn fater rhy gymhleth..."* i'w gwblhau o fewn yr amserlen gyfyngedig.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Rydym yn derbyn bod angen canfod cydbwysedd priodol rhwng rhoi digon o amser i weithwyr gymryd rhan yn y broses gofrestru cyn iddi ddod yn orfodol, ac un sy'n osgoi cyflwyno hunanfodlonrwydd i'r system. Fodd bynnag, nid ydym yn teimlo bod achos cryf wedi'i wneud dros gael cyfnod cyflwyno byrrach neu hirach na dwy flynedd.

Rydym yn deall bod cofrestru'n broses newydd i weithwyr gofal cartref ac rydym yn gweithio'n agos â Gofal Cymdeithasol Cymru i sicrhau ein bod ni'n gweithredu unrhyw wersi a ddysgir o gofrestru gweithwyr gofal cartref.

Er ein bod ni'n cydnabod y gallai'r orfodaeth i gofrestru achosi i rai gweithwyr adael y sector, credwn y gellir lleihau'r risg drwy ddarparu'r cymorth a'r canllawiau cywir. Rydym hefyd yn credu bod yna fwy o fanteision na risgiau i'r broses o broffesiynoli'r gweithlu drwy gofrestru. Bydd cofrestru hefyd yn darparu data gweithlu gwell i ni a fydd yn ein galluogi i fonitro unrhyw newidiadau yn y dyfodol.

Rydym wedi nodi tystiolaeth o'r Alban, sydd bron â chwblhau'r broses o gofrestru'r gweithlu. Mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu mai ychydig o effaith a gafodd cofrestru ar drosiant staff. Rydym hefyd yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid i ddarparu nifer o ymyriadau gyda'r nod o wella cyfraddau recriwtio a chadw yn y sector, er enghraifft ymgyrch Gofal Cymdeithasol Cymru, "Gofalwn.cymru" sy'n ceisio cynyddu'r nifer sy'n cael eu denu i'r sector a darparu ffocws i recriwtio a chadw gweithwyr drwy gyfres o astudiaethau achos sy'n amlygu cymhelliant gweithwyr i ymuno â'r sector.

Cwestiwn 7: A ddylem wneud cofrestru deulol yn ofynnol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n cael eu cyflogi gan wasanaeth cartref gofal i oedolion neu ganolfan preswyl i deuluoedd wrth ymgymryd â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'u cofrestru proffesiynol (e.e. nyrs neu therapydd galwedigaethol), os ydynt eisoes wedi'u cofrestru gyda rheoleiddiwr arall y gweithlu?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb	Cyfanswm
10	3	12	15	18	58

Crynodeb o'r ymatebion:

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn debyg iawn i'r ymatebion i gwestiwn tri, gyda ffocws ar amddiffyn cleientiaid a theimlad y dylai'r angen am gofrestru ddibynnu ar y swydd benodol.

O'r tri ymatebydd ar ddeg a deimlai y dylai cofrestru deulol fod yn ofynnol, dywedodd un, *"y mwyaf o wiriadau y gorau"*, gydag un arall yn dweud bod *'gwiriadau'n hanfodol er mwyn lles cleientiaid'*.

Waeth a oedd ymatebwyr yn cytuno gyda chofrestru deulol ai peidio, roedd yna elfen ogonsensws y dylid cael cysylltiad rhwng y cofrestru a'r swydd. Dywedodd ymatebydd a oedd yn cytuno gyda chofrestru deulol y dylai gweithwyr er hynny *'barhau o fewn cylch gwaith y swydd y cyflogwyd nhw ynddi ac y maent yn ei chyflawni ac yn derbyn cyflog amdani'*, gydag ymatebydd arall yn dweud nad oedd y sgiliau sy'n ofynnol i un swydd bob amser yr un fath â'r rhai sy'n ofynnol ar gyfer swydd arall. Dywedodd ymatebydd a oedd yn anghytuno â chofrestru deulol fod *'rhaid i gofrestriad y gweithiwr fod yn gysylltiedig â'i brif swydd yn y sefydliad'*. Dywedodd ymatebydd arall, *'os yw gweithgareddau'n gysylltiedig â'u cofrestriad proffesiynol nid oes angen cofrestru deulol'*.

Pan roedd ymatebwyr yn anghytuno â chofrestru deuol, dywedwyd bod yr amser a'r gost ychwanegol sy'n gysylltiedig â chofrestru deuol yn ddiangen ac y gallai atal pobl rhag gweithio yn y sector. Roedd yna bryder hefyd y byddai cofrestru deuol yn arwain at ddyblygu gwaith yn ddiangen ac y byddai'n gwneud y system yn fwy cymhleth. Dywedodd un ymatebydd hefyd, '*fod angen gallu ymddiried mewn rheoleiddwyr gweithlu perthynol*'.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn cytuno y gallai cofrestru deuol gymhlethu'r system yn ddiangen. Rydym hefyd yn cytuno y dylai cofrestru adlewyrchu'r swydd y mae gweithiwr wedi'i gyflogi i'w chyflawni. Rydym yn credu y dylai cyflogwyr allu dibynnu ar y cofrestriad proffesiynol a gafwyd drwy reoleiddwyr eraill, a bod hyn yn bwysig er mwyn cynnal hyder yn y system reoleiddio'r gweithlu gyfan. Am y rheswm hwn, credwn na ddylai'r rhai sydd wedi'u cyflogi gan wasanaeth gofal cartref i oedolion neu mewn canolfan breswyl i deuluoedd yn rhinwedd eu proffesiwn rheoleiddiedig, orfod cofrestru ddwywaith. Mae gweithwyr proffesiynol o'r fath yn atebol am eu hymddygiad eisoes gan i reoleiddwyr gweithlu eraill fel y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Cyngor Gweithwyr Iechyd a Gofal Proffesiynol, a bydd y rheoleiddwyr hynny eisoes yn gweithio i sicrhau bod y system o wiriadau a gynhelir yn ddigon trylwyr i osgoi'r angen am ddyblygu.

Cwestiwn 8: A ddylai'r gofyniad i gofrestru fel gweithiwr mewn canolfan breswyl i oedolion neu mewn canolfan breswyl i deuluoedd gael ei estyn i weithwyr asiantaeth yn y gwasanaethau hyn?					
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb	Cyfanswm
30	5	1	2	20	58

Crynodeb o'r ymatebion:

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr yn cefnogi'r gofyniad i gofrestru gweithwyr asiantaeth. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon am greu system '*dwy haen*' mewn sefyllfa lle nad oedd hi'n ofynnol i weithwyr asiantaeth gofrestru, tra bod eraill yn pwysleisio'r angen am gysondeb ar draws y sector i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal.

Ymysg y rhai a oedd yn anghytuno, roedd hyn yn adlewyrchu pryder cyffredinol y byddai cofrestru'r gweithlu'n gwneud y sector yn llai deniadol i weithwyr newydd posibl.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Rydym wedi ystyried yr ymatebion ac yn cytuno ei bod hi'n bwysig sicrhau dull cofrestru cyson. Nid ydym yn ystyried bod yna ddadl gref i eithrio gweithwyr asiantaeth rhag cofrestru. Felly, byddwn yn ymestyn y gofyniad i gofrestru fel gweithiwr gofal preswyl i oedolion neu weithiwr mewn canolfannau preswyl i deuluoedd i weithwyr asiantaeth yn y gwasanaethau hyn, yn unol â'r rheoliadau drafft.

Cwestiwn 9: A ddylem eithrio gwirfoddolwyr rhag gorfod cofrestru fel gweithwyr gofal preswyl i oedolion neu mewn canolfannau preswyl i oedolion?					
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb	Cyfanswm
11	9	7	9	22	58

Crynodeb o'r ymatebion:

Ni ddarparodd mwyafrif yr ymatebwyr unrhyw sylwadau ar y cwestiwn hwn. Mae hyn yn golygu bod cyfran fawr o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r cwestiwn i eithrio gwirfoddolwyr o'r gofrestr heb roi rheswm am hyn.

Fodd bynnag, eglurodd un ymatebydd "...ni fyddem yn disgwyl i wirfoddolwyr gyflawni rhai tasgau cofrestradwy (e.e. gofal personol)..." tra bod un arall yn teimlo y byddai'n "...well rheoli pryderon am wirfoddolwyr drwy bolisiâu a gweithdrefnau'r darparwr gofal, fel arall mae hyn yn berygl o effeithio'n andwyol ar gysylltiadau cymunedol..." Mae'r awgrymiadau hyn yn awgrymu bod cyflogwyr eisoes yn rheoli'r rolau y mae gwirfoddolwyr yn eu cyflawni yn eu sefydliadau a bod hyn yn cynnwys cyfyngu ar natur y tasgau a roddir iddynt.

Roedd un ymatebydd yn cytuno y dylid eithrio gwirfoddolwyr ond yn teimlo "...y dylai canllawiau clir fod ar gael ar beth y gall gwirfoddolwyr ei wneud a beth na allan nhw ei wneud ynghyd â gwiriadau cadarn..."

Roedd rhai'n dadlau bod gwirfoddolwyr yn adnodd gwerthfawr a allai deimlo nad oeddynt am weithio yn y sector pe bai'n rhaid iddynt gofrestru. Yn yr achos hwn, awgrymwyd y dylid cael "...opsiwn i wirfoddolwyr gofrestru, os ydynt yn dymuno, o ran cydnabod eu mewnbwn ac os ydynt yn ei weld fel llwybr defnyddiol i waith proffesiynol ym maes gofal yn y pen draw."

O'r rhai a deimlai y dylai gwirfoddolwyr gofrestru, roedd llawer yn teimlo eu bod yn cyflawni rolau tebyg i'w cymheiriaid cyflogedig yn aml ac y dylent orfod cofrestru yn yr un ffordd. Roedd un ymatebydd yn teimlo bod "...angen trin gwirfoddolwyr yn yr un ffordd â gweithwyr eraill, yn enwedig gan y gallant fod yn symud o gwmpas llawer mwy na gweithwyr dan gontract..." Cefnogwyd hyn gan ymatebydd arall a deimlai y byddai "...cofrestru'n amddiffyn defnyddwyr gwasanaethau ac yn rhoi teimlad o

broffesiynoldeb i wirfoddolwyr...” tra bod un ymatebydd yn rhybuddio bod yna fwy o berygl o “...*greu bylchau yn y fframwaith rheoleiddio a chymhellion ffug i gyflogwyr ddibynnu’n ddiangen ar staff banc neu wirfoddol...*”

Wrth ddadansoddi'r ymatebion mae'n ddiddorol nodi bod yna gonsensws clir bod angen diffinio rôl gwirfoddolwr yn glir ymysg y rhai a oedd yn cytuno a'r rhai a oedd yn anghytuno. Os mai rôl gynorthwyol yw hi nid darparu gofal personol², yna teimlwyd nad oedd angen cofrestru, ond os yw'n cynnwys rhyw fath o ofal personol dylai cofrestru fod yn ofynnol yn yr un ffordd â chategoriâu eraill o weithwyr gofal cymdeithasol.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Rydym yn ddiolchgar am y sylwadau a dderbyniwyd ar y cwestiwn hwn ond nid ydym wedi gweld dadl gref dros newid y dull.

Wrth hyrwyddo proffesiynoli'r gweithlu ni fyddem yn dymuno creu rhwystrau i wirfoddolwyr sydd â diddordeb mewn gweithio yn y sector sy'n gwneud cyfraniad pwysig at ddarparu cymorth ychwanegol i bobl. Credwn fod gan wirfoddolwyr rôl werthfawr yn y sector gofal cymdeithasol ac y dylent gael eu cefnogi i barhau i wneud y cyfraniad hwnnw.

Mae *Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Cofrestredig ac Unigolion Cyfrifol) 2017* hefyd yn gosod gofynion clir ar ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig mewn perthynas â gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn eu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau eu bod yn addas i weithio yn y gwasanaeth, eu bod yn onest ac o gymeriad da, a bod ganddynt y cymwysterau, y sgiliau, y cymhwysedd a'r profiad angenrheidiol ar gyfer eu gwaith.

Felly, nid ydym yn bwriadu cofrestru gwirfoddolwyr yn y cam hwn.

Cwestiwn 10: Er mwyn sicrhau cysondeb, a ddylem estyn y cynigion hefyd i osgoi cofrestru deul ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n cael eu cyflogi gan wasanaeth cartref gofal ar gyfer plant?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb	Cyfanswm
22	8	2	4	21	57

Crynodeb o'r ymatebion:

Fel yn achos cwestiwn 7 uchod, roedd mwyafrif yr ymatebwyr naill ai'n tueddu i gytuno, neu'n cytuno y dylem osgoi cofrestru deul ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n cael eu cyflogi gan wasanaeth cartref gofal ar gyfer plant i sicrhau cysondeb. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo ei “...*bod hi'n gwneud synnwyr i gynnal cysondeb*”

² Mae diffiniad o ofal wedi'i gynnwys yn Adran 3(1)(1) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

ar draws y sector..” Roedd eraill yn teimlo “...mae gan bob corff proffesiynol ei God Ymarfer a’i fecanwaith ei hun ar gyfer ymdrin â thramgwyddau...” neu “...y dylai un cofrestriad proffesiynol fod yn ddigon...” Dywedodd un ei fod yn tueddu i gytuno ond yn teimlo ei bod hi’n dibynnu ar a yw’r unigolyn wedi’i “...gyflogi i gyflawni gweithgareddau sy’n gysylltiedig â’i gofrestriad proffesiynol...” Ategwyd hyn gan un ymatebydd a ddadleuodd bod “...rheoleiddio proffesiynol yn gofyn i weithwyr proffesiynol sicrhau eu bod yn gweithio o fewn cwmpas yr ymarfer y maent wedi’i hyfforddi ar ei gyfer ac y dylai alluogi’r rheoleiddiwr i gymryd camau os oes angen hyd yn oed pan fo camymddwyn yn digwydd wrth gyflawni swydd broffesiynol arall...”

Fodd bynnag, nid oedd yr holl ymatebwyr yn cytuno bod cofrestru proffesiynol unigol yn ddigonol. Dywedodd un, “...dylid cael gwahaniaeth clir rhwng gwasanaethau plant ac oedolion ac felly mae angen eu cofrestru ar wahân...” tra bod un arall yn teimlo ei fod “...yn ychwanegu haen arall o amddiffyniad i ddefnyddwyr gwasanaethau...” Fodd bynnag, dywedodd un ymatebydd y “...dylai pobl gael eu cofrestru gyda’r corff priodol fel y gallant gyflawni’r swydd maent yn gweithio ynddi...”

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Fel gyda’n hymateb i gwestiwn saith uchod, rydym yn cytuno y dylai cofrestriad adlewyrchu’r swydd y mae’r gweithiwr wedi’i gyflogi i’w chyflawni. Rydym yn credu y dylai cyflogwyr allu dibynnu ar y cofrestriad proffesiynol a gafwyd drwy reoleiddwyr eraill, a bod hyn yn bwysig er mwyn cynnal hyder yn y system reoleiddio gweithlu gyfan. Rydym hefyd yn credu ei bod hi’n bwysig cynnal cysondeb ar draws y lleoliad.

Cwestiwn 11: Er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y gofrestr, a ddylem estyn y gofyniad fel bod staff asiantaeth a gyflogir gan wasanaeth cartref gofal i blant a gwasanaeth llety diogel yn cael eu cynnwys ar y gofrestr?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb	Cyfanswm
30	4	1	2	20	57

Crynodeb o’r ymatebion:

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr i’r cwestiwn hwn o blaid cofrestru staff asiantaeth mewn gwasanaeth cartref gofal i blant a gwasanaethau llety diogel. Er eu bod wedi rhoi amrywiaeth o resymau dros hyn, y farn gyffredinol oedd y dylai staff asiantaeth fod yn destun yr un rheolau â staff cyflogedig, ac y dylai’r dull fod yn gyson “...wrth ddysgu gwersi o adolygiadau achos difrifol gwelir pa mor bwysig yw cael dull cyson o gofrestru staff...” “...mae pwysigrwydd cysondeb o ran staff a dull, a gofyniad cofrestru cyffredin ar gyfer staff parhaol ac asiantaeth yn llinell sylfaen bwysig...” “...mae yna orddibyniaeth ar weithwyr asiantaeth eisoes a byddai hyn yn darparu ffordd o osgoi cofrestru i staff pe baent wedi’u heithrio, gan wneud recriwtio

a chadw staff yn fwy o broblem i ddarparwyr hyd yn oed...” Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau y dylid cofrestru'r gweithlu cyfan, a rhai'n teimlo mai dyma oedd orau ar gyfer “...cynnal safonau a diogelwch defnyddwyr gwasanaethau...” ac y dylai “...yr un rheol fod yn berthnasol i bob lleoliad...”

O'r rhai a oedd yn anghytuno neu'n tueddu i anghytuno â'r cynnig, roedd un yn cwestiynu'r angen am gymaint o gofrestri. Er bod un arall o'r farn mai dim ond staff parhaol ddylai orfod cofrestru gyda'r rheoleiddiwr, roedd yn dadlau y dylid darparu rhyw fath o raglen sefydlu ffurfiol i staff asiantaeth.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Rydym wedi ystyried yr ymatebion ac yn cytuno bod dull cofrestru cyson yn bwysig. Nid ydym yn ystyried bod yna ddadl gref dros eithrio staff a gyflogir gan wasanaeth cartref gofal i blant a gwasanaeth llety diogel rhag cofrestru. Felly, byddwn yn diwygio'r *Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2020* i gynnwys staff asiantaeth a gyflogir o dan gontract i weithio mewn gwasanaethau gofal preswyl plant a gwasanaethau llety diogel.

CWESTIWN ISOD DDIM RUN FATH A'R DDOGFEN YMGYNGHORI

Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i ddiwygio'r Rheoliadau Cofrestru i'w gwneud hi'n ofynnol i holl gyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr ac aelodau unrhyw sefydliad (yn cynnwys y rhai a reolir gan ei aelodau) sydd am gofrestru fel darparwr gwasanaethau, ddarparu gwybodaeth i Arolygiaeth Gofal Cymru am unrhyw geisiadau blaenorol i gofrestru neu gofrestriadau oedd ganddynt fel darparwr gwasanaethau i unrhyw wasanaeth gofal rheoleiddiedig arall yn y DU ac unrhyw wybodaeth adnabod arall oedd ganddynt fel darparwr gwasanaethau unrhyw wasanaeth gofal rheoleiddiedig arall yn y DU a gywbodaeth adnabod berthnasol.					
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb	Cyfanswm
28	5	4	1	20	58

Crynodeb o'r ymatebion:

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r cynnig i ddiwygio'r rheoliadau cofrestru i'w gwneud yn ofynnol i gyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr ac aelodau byrddau neu bwyllgorau sefydliad sydd am gofrestru fel darparwr gwasanaethau ddarparu gwybodaeth i Arolygiaeth Gofal Cymru am unrhyw ran y maent wedi'i gymryd mewn rhedeg gwasanaethau gofal rheoleiddiedig yn y gorffennol yng Nghymru neu yn y DU yn gyffredinol. Mae unigolion sy'n gwneud cais ar ran sefydliadau sydd am gofrestru fel darparwyr gwasanaethau eisoes yn gorfod darparu'r wybodaeth hon ond nid yw'n berthnasol ar hyn o bryd i lunwyr penderfyniadau ehangach y sefydliad hwnnw.

Dywedodd un ymatebydd fod y cynnig yn “*briodol a chymesur*”. Dywedodd un arall y “*dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar y lefel hon fod yn atebol gan fod ganddynt gyfrifoldeb i sicrhau bod y bobl o dan eu gofal yn ddiogel ac yn cael gofal da gydag urddas a pharch*”. Dywedodd ymatebydd o'r sector gwirfoddol y dylai “*pobl sy'n ymgymryd â rôl ymddiriedolwr fod yn destun safonau ymddygiad ac ymddwyn yn gyson â nodau'r rheoleiddiad*”.

Holodd un ymatebydd a fyddai angen darparu'r wybodaeth ymlaen llaw neu fesul achos ac a fyddai angen i'r unigolyn gael asesiad er mwyn penderfynu a yw'n “*addas a phriodol*”.

O'r rhai oedd yn tueddu i anghytuno, roedd rhywfaint o bryder y gallai cynnwys “*aelodau pwyllgorau*” o fewn cwmplas y bobl y gall Arolygiaeth Gofal Cymru ofyn am wybodaeth gefndir ganddynt fynd y tu hwnt i'r rhai sy'n rheoli'r gwasanaeth a golygu newid yn niffiniad “*darparwr gwasanaethau*”. Nid oedd un ymatebydd yn glir am pa wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani ac roedd un arall yn bryderus y gallai effeithio ar yr ymweliadau arolygu. Ni ddarparodd un ymatebydd a oedd yn anghytuno fanylion ategol gyda'i ymateb.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiynau 12 a 13 wedi'u nodi isod.

Cwestiwn 13: A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddefnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 9(9) o Ddeddf 2016 i amrywio'r dystiolaeth y dylai Arolygiaeth Gofal Cymru (yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru) roi sylw iddi wrth benderfynu a yw person yn addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth?					
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb	Cyfanswm
23	9	2	1	23	58

Crynodeb o'r ymatebion:

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n tueddu i gytuno gyda'r cynnig i ddefnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 9(9) o Ddeddf 2016 er mwyn gallu cynnwys gwybodaeth a gafwyd gan gyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr, aelodau byrddau a phwyllgorau - fel y cynigiwyd yng nghwestiwn 12 - yn yr ystyriaethau perthnasol i benderfynu a yw darparwr gwasanaethau yn addas a phriodol.

Dywedodd un ymatebydd y bydd “*sicrhau mai dim ond unigolion addas a phriodol sy'n cael cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru yn helpu canfyddiadau'r cyhoedd am ansawdd gofal*”. Dywedodd un arall y byddai'r wybodaeth yn “*helpu i wneud penderfyniad ar a yw rhywun yn addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaethau*”.

Dywedodd un ymatebydd y dylai Arolygiaeth Gofal Cymru ystyried darparwyr cyfredol sydd â hanes cadarnhaol maith o ddarparu gwasanaethau. Awgrymodd ymatebydd arall y gallai Llywodraeth Cymru ystyried adolygiad Kark o'r prawf unigolion addas a phriodol yn Lloegr a adroddodd ar effeithiolrwydd y prawf addas a phriodol i uwch staff y GIG.

Roedd ymatebydd arall yn teimlo ei bod hi'n bwysig bod yna rywfaint o ganllawiau a chymorth i aelodau byrddau a phwyllgorau i sicrhau eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Ymateb Llywodraeth Cymru (i gwestiynau 12 a 13):

Rydym yn croesawu'r adborth ar y cynigion hyn ac wedi ystyried y materion a godwyd yn ofalus. O ran y pryderon bod cynnwys aelodau pwyllgorau o fewn cwmpas y bobl y gall Arolygiaeth Gofal Cymru ofyn am wybodaeth gefndir ganddynt yn mynd y tu hwnt i'r rhai sy'n rheoli'r gwasanaeth, rydym yn credu mai camddealltwriaeth yw hyn o beth a olygir gan aelodau pwyllgorau yn y cyd-destun hwn. Bydd aelodau pwyllgorau ond yn gorfod darparu gwybodaeth os ydynt yn cynrychioli'r haen uchaf o lunwyr penderfyniadau yn y sefydliad hwnnw ac yn gweithredu yn yr un capasiti â bwrdd. Yn achos sefydliadau sydd â sawl haen o lywodraethu a allai gynnwys bwrdd cyfarwyddwyr a phwyllgor rheoli, er enghraifft, byddem yn mabwysiadu dull cymesur ac ond yn gofyn am wybodaeth gan fwrdd y cyfarwyddwyr.

Byddai angen y wybodaeth gan lunwyr penderfyniadau allweddol ymlaen llaw, wrth gofrestru. Felly, ni fyddai'r newidiadau hyn yn effeithio ar ymweliadau arolygu. Ni fyddai'n rhaid i'r unigolion hyn gael asesiad cyn y penderfynir a ydynt yn addas a phriodol. Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn ystyried y wybodaeth am gefndir proffesiynol yr unigolion hyn wrth wneud penderfyniad cyffredinol am addasrwydd y darparwr.

Nid yw Arolygiaeth Gofal Cymru'n bwriadu diwygio ei phroses gofrestru yn sgil newidiadau i'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, bydd y diwygiadau hyn yn rhoi mwy o sicrwydd ac eglurder cyfreithiol am y gofynion mewn perthynas â swyddogion y sefydliad.

O ran canllawiau a chymorth i aelodau byrddau a phwyllgorau, mae'r rheoliadau sy'n pennu gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol gwasanaethau rheoleiddiedig³, yn ogystal â'r canllawiau statudol cysylltiedig, eisoes yn darparu

³ Y rhain yw:

- *Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2017* (sy'n ymwneud â gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau llety diogel i blant a chanolfannau preswyl i deuluoedd);
- *Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2019*;

gwybodaeth gynhwysfawr am ddisgwyliadau'r darparwr gwasanaethau ac Unigolyn Cyfrifol y gwasanaeth. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru hefyd wedi darparu canllawiau am y broses gofrestru sydd i'w gweld ar ei gwefan:

<https://arolygiaethgofal.cymru/diweddariad-ir-canllawiau-ailgofrestru>

Rydym yn nodi'r cyfeiriad at Adroddiad Kark, sy'n adolygu'r prawf unigolion addas a phriodol ar gyfer byrddau gwasanaethau iechyd Lloegr. Fodd bynnag, mae'r argymhellion yn Adroddiad Kark yn mynd y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

Wrth ymgynghori ar y cynigion hyn rydym wedi nodi'r angen i wneud newid cysylltiedig i'r gofynion hysbysu yn atodlen 3 o'r gyfres o reoliadau sy'n pennu gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol holl wasanaethau rheoleiddiedig, i sicrhau bod y gofynion rheoleiddio'n gweithio'n effeithiol yn gyffredinol ac fel y bwriadwyd. Mae'r gofyniad ar ddarparwyr i hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru am unrhyw newid mewn cyfarwyddwyr neu bartneriaid ar ôl i wasanaeth gael ei gofrestru ond yn berthnasol i gwmnïau a phartneriaethau ar hyn o bryd.

Rydym yn cynnig gwneud iawn am yr hepgoriad anfwriadol hwn drwy ymestyn y gofyniad hwn i gynnwys cyrff anghorfforedig fel bod Arolygiaeth Gofal Cymru'n cael ei hysbysu am newidiadau i ymddiriedolwyr ac aelodau byrddau neu fyrddau holl wasanaethau rheoleiddiedig Cymru. Byddwn yn ysgrifennu at bartion â buddiant i ymgynghori â nhw ar y cynnig hwn i ddiwygio atodlen 3 yn y gyfres o reoliadau. Bydd y newid arfaethedig hwn yn sicrhau bod gofynion a bennir ar wahanol fathau o ddarparwyr yn gyson a bod Arolygiaeth Gofal Cymru'n gallu goruchwylio'r holl ddarparwyr gwasanaethau yn ddigonol. Bydd canlyniad yr ymgysylltu hwn yn cael ei gyhoeddi yn y Memorandwm Esboniadol yn y rheoliadau diwygio.

Cwestiwn 14: Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pam/pam ddim?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb	Cyfanswm
5	6	1	1	45	58

Crynodeb o'r ymatebion:

Ychydig iawn o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n tueddu i gytuno y gallai'r cynigion gael effaith gadarnhaol ar

- *Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2019;*
- *Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019;*
- *Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2019.*

grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Eglurodd un ymatebydd y byddai unrhyw gynlluniau i broffesiynoli ac uwchsgilio'r gweithlu drwy wella amodau, telerau, cyflog a sicrwydd swyddi o fudd i fenywod gan mai menywod yw mwyafrif y gweithwyr gofal.

Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai'r cynigion o fudd i bobl hŷn a phobl anabl yn arbennig gan mai dyma'r grwpiau sydd fwyaf tebygol o fod angen gofal a chymorth gan y gweithlu gofal cymdeithasol. Ategodd ymatebwyr eraill hyn, gan ddatgan er enghraifft y bydd "*...gweithwyr gofal yn derbyn hyfforddiant o ansawdd o dan y broses gofrestru – gan effeithio ar ofal...*" ac y byddai'r cynnydd mewn craffu gan y broses reoleiddio yn "*...diogelu'r bobl fwyaf agored i niwed.*" Awgrymwyd y byddai pobl â dementia hefyd yn debygol o elwa ar y cynigion gan y bydd unigolion cofrestredig yn gallu darparu gofal a chymorth wedi'i deilwra ar ôl cael hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar adnabod y cyflwr a chydymdeimlo â'r unigolyn.

Er i ychydig o ymatebwyr nodi effaith gadarnhaol bosibl ar bobl anabl sy'n derbyn gofal a chymorth, roedd un ymatebydd yn teimlo y gallai pethau fod yn wahanol i bobl anabl sydd am weithio yn y sector gofal cymdeithasol. Roedd yn teimlo y gallai gofynion i gwblhau arholiadau/cymwyseddau ysgrifenedig roi pobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth o dan anfantais ac y gallai hyn "*...eu hatal*". Er mwyn lliniaru'r canlyniad anfwriadol hwn awgrymodd yr ymatebydd ddulliau eraill o asesu'r cymwyseddau gofynnol fel "*...asesiad yn y gwaith, cyfweliadau gwaith...*"

Cafodd ymatebwyr na ddarparodd ateb, neu a oedd yn teimlo na fyddai yna unrhyw effaith ar bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig, neu effaith niwtral, "*...bydd cofrestru'r holl staff cyflogedig yn sicrhau cydraddoldeb a thegwch...*" eu rhoi ymysg y 44 o 'dim ymatebion'. Nid oedd sylwadau'r ymatebwyr hyn yn ateb y cwestiwn a ofynnwyd neu roeddynt yn sôn am grwpiau agored i niwed mewn cymdeithas yn hytrach na nodweddion gwarchoddedig a ddatganwyd yn y gyfraith.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Yn gyffredinol, rydym yn tueddu i gytuno bod y cynigion yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar rai grwpiau, yn enwedig pobl anabl, a menywod yn y gweithlu. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod yna berygl o effeithiau negyddol i rai grwpiau o'r gweithlu os nad yw hygyrchedd hyfforddiant yn cael ei ystyried yn y cam gweithredu.

Ni dderbyniwyd llawer o ymatebion i'r cwestiwn hwn, fodd bynnag byddwn yn defnyddio'r ymatebion a gafwyd i lywio'n hasesiad o'r effeithiau ar gydraddoldeb. Byddwn hefyd yn ystyried a fyddai ymgysylltu rhagweithiol pellach gyda grwpiau o bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig yn helpu i lywio'n camau nesaf.

Mae'r llwybrau cymwysterau eisoes yn cynnwys rhywfaint o asesu yn y gwaith, fodd bynnag byddwn yn trafod y pryderon a godwyd am hygyrchedd hyfforddiant gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Cwestiwn 15: Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pam/pam ddim?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb	Cyfanswm
0	10	0	8	39	57

Crynodeb o'r ymatebion:

Cymharol ychydig o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn eto. Roedd mwyafrif bach yn tueddu i gytuno y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig. Y nodweddion gwarchoddedig a nodwyd amlaf oedd rhyw (menywod), oedran (oedolion hŷn) ac anabledd.

Roedd sylwadau ynghylch y potensial i gynigion gael effaith negyddol anghymesur ar fenywod yn adlewyrchu pryderon mai'r grŵp hwn a fyddai'n gorfod ysgwyddo cost cofrestru'n bennaf, "...*mae llawer ohonynt [menywod] ar gyflog isel a gallent gael trafferth i dalu'r costau...*" Roeddynt hefyd yn adlewyrchu pryder am heriau bodloni safonau cymhwyso o fewn yr amserlen ofynnol os nad oeddynt yn gweithio'n llawn amser. Dywedodd un ymatebydd fod 48% o'r gweithlu'n gweithio oriau rhan-amser, ac o ystyried bod mwyafrif (82%) y gweithlu'n fenywod, gallai hyn gael effaith anghymesur ar famau sy'n gweithio.

Roedd ymatebwyr hefyd yn teimlo y gallai'r cynigion gael effaith negyddol anghymesur ar weithwyr hŷn, sy'n gyfran fawr o'r gweithlu. Rydym yn ymwybodol bod 48% o'r gweithlu gwasanaethau a gomisiynwyd⁴ dros eu hanner cant a bod 88% yn fenywod. Teimlwyd bod llythrennedd cyfrifiadurol yn un rheswm posibl am yr effaith negyddol oherwydd "*elfen ar-lein y cofrestru...*" a allai arwain yn y pen draw at golli gweithwyr hŷn o'r sector, pobl sydd â phrofiad gwerthfawr ond sydd â llai o sgiliau cyfrifiadurol yn aml. Mynegwyd hefyd y gallai gweithwyr hŷn fod yn "*llai tebygol o fod eisiau astudio am gymwysterau neu weithio oriau hirach er mwyn cwblhau gweithgarwch dysgu ychwanegol.*" Nododd ymatebydd arall fod "*y ganran uchaf o absenoldeb salwch i'w weld ymysg staff hŷn...*" ac y gallai'r amser hwn i ffwrdd o'r gwaith rwystro unigolion rhag cwblhau'r asesiadau mewn pryd. Soniwyd am amser i ffwrdd o'r gwaith hefyd mewn perthynas ag unigolion yn cael triniaeth ar gyfer ailbennu rhywedd.

Teimlwyd y gallai'r cynigion roi pobl anabl o dan anfantais anghymesur am rai o'r un rhesymau a nodwyd uchod fel yr amser y byddent yn ei gymryd i gwblhau cymwysterau pe baent yn absennol o'r gwaith yn sgil eu hanabledd. Soniodd ymatebydd arall am y rhaglen Engage to Change sy'n cefnogi pobl ifanc anabl i ymuno â'r sector gofal cymdeithasol. Roedd yn dadlau y gallai'r gofyniad i gwblhau

⁴ Dadansoddiad Data'r Gweithlu Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru 2017 https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/COM07006_SCWWDP_report_2017_internal_cym_Final-V2.pdf

cymwysterau ffurfiol fod yn rhwystr i'r rhai ag anawsterau dysgu neu lefelau llythrennedd isel.

O ran darparu gwasanaethau, awgrymodd un ymatebydd y gallai pobl â nodweddion gwarchoddedig sy'n derbyn gofal a chymorth fod o dan anfantais wrth i weithwyr adael y sector gan leihau'r "gofal a'r cymorth sydd ar gael". Mynegwyd pryder hefyd y gallai "unrhyw gynnydd yng nghostau darparwyr gwasanaethau [o ganlyniad i ofynion cofrestru] gael eu trosglwyddo'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Felly gallai costau gwasanaethau gynyddu, neu gall llai ohonynt fod ar gael..."

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn ddiolchgar i'r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ar y cwestiwn hwn. Rydym yn cydnabod bod yna berygl y gallai'r broses gofrestru gael effaith anghymesur ar rai grwpiau o bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig, fel pobl hŷn, menywod a phobl anabl, a byddwn yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i sicrhau bod y peryglon hynny'n dal i gael eu nodi a'u rheoli yn y cam gweithredu. Rydym yn cydnabod bod unrhyw ffi'n debygol o effeithio ar fwy o fenywod na dynion, yn sgil cyfansoddiad y gweithlu. Fodd bynnag, mae Gofal Cymdeithasol Cymru eisoes wedi ymgynghori'n eang ar hyn ac mae'r gofyniad i dalu ffi yn gyson â gofynion cofrestru gweithlu gofal cymdeithasol eraill mewn mannau eraill o'r DU. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn cynnig amrywiaeth o opsiynau gyda'r nod o helpu pobl i ymdopi â'r taliad. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn gweithio'n agos â chyflogwyr a gweithwyr darparwyr gwasanaethau i helpu i ddarparu cymorth cynhwysfawr i ddeall y broses gofrestru.

Rydym hefyd yn gweithio i hyrwyddo mwy o amrywiaeth yn y gweithlu gofal cymdeithasol. Un ffordd o gyflawni hyn yw ymgyrch 'Gofalwn.cymru'.

Byddwn yn defnyddio'r ymatebion a dderbyniwyd i lywio'n hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Byddwn hefyd yn ystyried a fyddai ymgysylltu rhagweithiol pellach gyda grwpiau o bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig yn helpu i lywio'n camau nesaf.

Cwestiwn 16: Hoffem wybod eich safbwyntiau ar yr effaith y byddai'r cynigion hyn yn ei chael ar y Gymraeg, ac yn benodol o ran:

- i) cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg;**
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb	Cyfanswm
0	10	10	0	35	55

Crynodeb o'r ymatebion:

Ni chyflwynodd mwyafrif yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn unrhyw sylwadau ychwanegol.

O'r rhai a wnaeth, roedd y mwyafrif yn teimlo y byddai'r cynigion yn cael effaith niwtral neu nid oeddynt yn teimlo y byddent yn cael unrhyw effaith o gwbl ar ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Roedd rhai'n dadlau "...na fyddai cyfleoedd yn cael eu heffeithio gan ein bod ni'n dilyn safonau Cymru a'i chyfraith..." neu "...ni ddylai fod yna unrhyw effaith negyddol cyn belled bod y wybodaeth yn cael ei darparu'n gyson ac ar yr un pryd yn y ddwy iaith..." Dywedodd un bod angen dull mwy cymesur o drin yr iaith gan "...nad yw rhai rhannau o Gymru'n defnyddio'r Gymraeg cymaint ag ardaloedd eraill. Dylid cefnogi unrhyw ardaloedd sy'n defnyddio'r Gymraeg ond ni ddylid ei gorfodi ar y gweddill..."

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn dadlau ei bod hi "...eisoes yn anodd dod o hyd i ddigon o weithwyr sy'n siarad Cymraeg i'r sector ar gyfer darparu gwasanaethau drwy ddewis iaith yr unigolyn sy'n derbyn gofal..." gan ddadlau ymhellach "...pe bai'r mesurau hyn yn lleihau nifer y siaradwyr Cymraeg sydd am weithio yn y sector yn ogystal â'r gweithlu'n fwy cyffredinol, gallai hyn gael effaith andwyol ar ddarpariaeth gofal drwy gyfrwng y Gymraeg..."

Dadleuodd un ymatebydd fod cyflogwyr wedi darparu cyrsiau Cymraeg i helpu staff ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle am dros ddegawd mewn rhai achosion "...wedi'u cefnogi'n fewnol, yn ystod oriau swyddfa, cludo staff i'r Ganolfan, gwersi yn Gymraeg a Saesneg. Gormod ar y cwrs bob amser. Neb yn cwblhau unrhyw gwrs ar unrhyw lefel..." Roedd yn dadlau ei fod yn cael ei weld fel ymarfer nad oedd yn sicrhau canlyniadau yn aml.

Roedd un ymatebydd yn teimlo "...bod potensial i staff nad yw'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt gael eu heffeithio'n andwyol i gwblhau'r gofynion o fewn yr amserlen..." ychwanegodd un arall "...Os yw'ch cleientiaid yn gofyn am unrhyw ieithoedd eraill mae'n ddyletswydd ar y Cartref i ymateb..." a ategwyd gan ymatebydd arall a deimlai y dylai "...darparwyr ddarparu'r opsiwn i gael siaradwr Cymraeg..."

Cwestiwn 17: Beth ydych chi'n credu fyddai'r effeithiau? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?					
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb	Cyfanswm
0	0	0	0	38	38

Crynodeb o'r ymatebion:

Ychydig iawn o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn.

Dywedodd pum ymatebydd eu bod yn teimlo na fyddai yna unrhyw effaith ar y Gymraeg. Dywedodd un bod yna ofyniad eisoes i ddarparu gwasanaethau trwy

gyfrwng y Gymraeg a'i fod yn cydymffurfio â hyn, felly ni fyddai'n cael unrhyw effaith gyffredinol ar ddarparu gwasanaethau. Roedd pedwar ymatebydd arall yn teimlo y dylid gwneud mwy i annog defnydd o'r Gymraeg yn hytrach na'i gwneud yn orfodol, gyda dau o'r rhain yn awgrymu y dylai hyn hefyd gynnwys cynnig mwy o gymorth i'r sector trwy gyrsiau mwy hygyrch a chost-effeithiol i gyflogwyr.

Fodd bynnag, roedd dau ymatebydd yn teimlo'n wahanol i hyn gan ddatgan y dylai gwasanaethau Cymraeg gael eu darparu ar sail angen yn unig nid fel dyletswydd orfodol, gan fod hyn yn gosod baich diangen ar gyflogwyr yn enwedig os nad oedd angen wedi'i nodi'n lleol. Roedd tri ymatebydd arall yn teimlo, cyn belled bod darparwyr gwasanaethau'n diwallu anghenion eu cleientiaid, y dylai hyn fod yn ddigon i sicrhau na fyddai unrhyw effaith negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithlu neu fodloni gofynion.

Dywedodd un ymatebydd mai'r unig ffordd o sicrhau effaith a newid y sefyllfa bresennol oedd gwneud gwasanaethau Cymraeg yn orfodol. Fodd bynnag, pwysleisiodd ymatebydd arall yr angen i osgoi ymarferion ticio bocsys mewn perthynas â'r Gymraeg.

Cwestiwn 18: Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gellid ffurfio'r cynigion arfaethedig neu eu newid er mwyn:

- i. cael effeithiau cadarnhaol (neu ragor o effeithiau cadarnhaol) o ran y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;**
- ii. peidio â chael effeithiau andwyol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb	Cyfanswm
0	0	0	0	40	40

Crynodeb o'r ymatebion:

Fel gyda Chwestiwn 17 uchod, ychydig iawn o ymatebwyr a ddewisodd ateb y cwestiwn hwn. O'r rhai a atebodd, er na chwblhaodd yr un ohonynt y ffurflen i ddweud a oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno, fe wnaethant roi sylwadau.

Dywedodd pum ymatebydd nad oedd ganddynt sylwadau i'w hychwanegu ar y mater hwn, ac roedd pump arall yn teimlo na fyddai ein rheoliadau'n cael unrhyw effaith (cadarnhaol na negyddol) ar y Gymraeg. Dywedodd un ymatebydd nad oedd gwybodaeth i ddangos a fyddai yna unrhyw effeithiau ai peidio.

Ailadroddodd un ymatebydd bod angen mwy o gyrsiau i annog y defnydd o'r Gymraeg. Roedd yn teimlo y gellid rhoi mwy o gymorth i'r sector trwy ddarparu

cyrsiau mwy hygyrch a chosteffeithiol. Dadleuodd ymatebydd arall y byddai hyn yn helpu i ddiwallu unrhyw anghenion lleol, ac y dylai'r gofyniad hwn adlewyrchu angen uniongyrchol yn unig neu geisio gwella gwasanaethau nid ticio bocs yn unig. Dadleuodd ymatebydd arall fod y canllawiau polisi Cymraeg eisoes yn darparu digon o wybodaeth i helpu darparwyr i ddeall eu gofynion cyfreithiol ond roedd yn croesawu'r syniad o roi mwy o gymorth.

Ymateb Llywodraeth Cymru (i gwestiynau 16, 17 ac 18):

Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion a dderbyniwyd i'r cwestiynau hyn. Nid yw'n bolisi gennym i osod baich diangen ar y sector gofal cymdeithasol. Ein nod yw sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau gorau i'w cefnogi lle bo'n bosibl.

Rydym yn cyflwyno nifer o raglenni gwaith gyda'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ledled Cymru. Mae'r camau gweithredu hyn yn mynd ymhellach na'r maes gofal cymdeithasol ond yn bwysig o ran ystyried y materion a godwyd. Mae *Mwy na Geiriau* yn fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Dangosodd adolygiad o *Mwy na Geiriau* fod llawer wedi'i gyflawni ar y camau gweithredu a bennwyd ar gyfer darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae yna enghreifftiau o arferion da ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae nifer o'r camau nesaf a oedd yn deillio o adolygiad *Mwy na Geiriau* wedi'u nodi yn ein strategaeth ar gyfer y Gymraeg, "*Cymraeg 2050*", a bydd hyn yn ein helpu i gyflawni'n huchelgais o gael miliwn o siaradwyr a defnyddwyr Cymraeg erbyn 2050.

Er ein bod ni'n ceisio cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, yn genedlaethol ac ar draws ein heconomi, mae hyn yn cael ei wneud mewn ffordd gydweithredol a phragmataidd. Rydym yn ymwybodol bod llawer o ddysgwyr Cymraeg yn teimlo'n llai hyderus i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle ac felly mae angen eu hannog i'w helpu i sgwrsio'n Gymraeg gyda'r rhai sy'n gallu gwneud hynny a fydd yn arwain at fanteision sylweddol i'r ddwy ochr.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gellir gwneud mwy i gefnogi'r broses o recriwtio siaradwyr Cymraeg i'r maes gofal cymdeithasol a byddwn yn parhau i ganolbwyntio'n hymdrechion ar sut y gellir cyflawni hyn.

O ran gweithwyr nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, rydym yn nodi'r heriau y gallent eu hwynebu wrth gwblhau'r broses gofrestru a byddwn yn codi hyn mewn trafodaethau ar weithredu gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.